COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

CYNIGION DRAFFT

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

CYNIGION DRAFFT

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

3. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

4. ASESIAD

5. CYNIGION

6. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

7. CYDNABYDDIAETHAU

8. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

9. Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost:cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau cam cyntaf yr arolwg o ffiniau cymunedol Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ei Gyfarwyddyd i ni dyddiedig 31 Mawrth 2008 (Atodiad 1).

1.2 Diben yr arolwg yw ystyried a ddylai'r Comisiwn, er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gynnig newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol. Cynhelir yr arolwg o dan ddarpariaethau Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf).

1.3 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw, ysgrifennom ar 1 Mai 2008 at Gynghorau Cymuned Abertyleri a Llanhiledd, Bryn-mawr, Nant-y-glo a'r Blaenau, a Thredegar, yr Aelod Seneddol ar gyfer yr etholaeth leol, yr Aelodau Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg a gofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Cyhoeddom hefyd ein bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal a gofyn i'r Cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus. Rhoddwyd hysbysiad am gychwyn yr arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cynrychiolaethau (4 Gorffennaf 2008) ar wefannau'r Comisiwn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cynigiwn:

- bod y ffin rhwng Cymunedau Abertyleri a Llanhiledd a Nant-y-glo a'r Blaenau yn ardal Bourneville yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Beaufort a Bryn-mawr yn ardal Ffordd Twyncynghordy yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 4;
- y dylai Cymuned Beaufort gael ei diddymu a bod tair Cymuned newydd Badminton, Beaufort a Rassau yn cael eu creu gan ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn atodiad 5;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 7;
- y dylai Cymuned Glynebwy gael ei diddymu a bod dwy Gymuned newydd Gogledd Glynebwy a De Glynebwy yn cael eu creu gan ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 9;

2.2 Awgrymwn hefyd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystyried arolwg o wardiau cymunedol ar gyfer Cyngor Cymuned Tredegar.

3. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

3.1 Cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd, Cyngor Tref Bryn-mawr a Chyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau. Ystyriwyd pob un o'r cynrychiolaethau'n ofalus cyn llunio ein cynigion. Gellir gweld manylion yr holl gynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2

4. ASESIAD

4.1 Rydym wedi ystyried newidiadau awgrymedig i ffiniau cymunedol yn yr ardaloedd canlynol: Anheddiad Bourneville a ddaw o fewn Cymunedau Abertyleri a Llanhiledd, a Nant-y-glo a'r Blaenau, Wardiau Cymuned Beaufort sef Badminton, Beaufort a Rassau, Beaufort a Bryn-mawr, Bryn-mawr, a Nant-y-glo a'r Blaenau, Cwm a Glynebwy, Wardiau Gogledd a De Glynebwy, a Wardiau Sirhowy a Chanol a Gorllewin Tredegar o Gymuned Tredegar.

Abertyleri a Llanhiledd, a Nant-y-glo a'r Blaenau

4.2 Rydym wedi nodi'r awgrymiadau gan Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd, a Chyngor Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau ynghylch newid i'r ffin yn ardal anheddiad Bourneville. Rydym wedi ystyried y ddau awgrym ac wedi nodi bod y rhan fwyaf o anheddiad Bourneville ar hyn o bryd yng Nghymuned Abertyleri a Llanhiledd ac ymddengys i ni fod ganddo gysylltiadau agosach â'r gymuned honno na gyda Chymuned Nant-y-glo a'r Blaenau. Ystyriwn y byddai'n briodol adlinio'r ffin i ddilyn trywydd afon Ebwy Fach i gynnwys anheddiad cyfan Bourneville yn Ward Cwmtyleri o Gymuned Abertyleri a Llanhiledd. Cynigiwn felly newid i'r ffin rhwng y ddwy gymuned fel y dangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3.

Beaufort a Bryn-mawr

4.3 Ystyriwyd cais Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i newid y ffin rhwng Cymunedau Beaufort a Bryn-mawr yn ardal Ffordd Twyncynghordy i fynd i'r afael ag anomaledd yn y ffin yn ymwneud ag eiddo preswyl unigol newydd ei adeiladu. Ar ôl cynnal ymweliad â'r safle, ymddengys mai'r unig fynedfa i'r eiddo hwn yw trwy Gymuned Beaufort, oherwydd clwyd dan glo sy'n rhwystro mynediad ar hyd Ffordd Twyncynghordy o Fryn-mawr. Cynigiwn y byddai'n briodol adlinio'r ffin i symud yr eiddo o Fryn-mawr i Beaufort (map yn Atodiad 4).

Beaufort

4.4 Rydym wedi nodi y bu gan Gymuned Beaufort, nad oes ward iddi, hanes hir o gael ei rhannu'n dair adran etholiadol llywodraeth leol sef Badminton, Beaufort a Rassau. Gan nad oes Cyngor Cymuned i Gymuned Beaufort ni fyddai modd creu Wardiau Cymuned Badminton, Beaufort a Rassau, fel rhan o arolwg o drefniadau cymunedol, i gyd-fynd â'r adrannau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol. Byddai cymhwyso'n gaeth y rheolau sy'n llywodraethu ar arolygon etholiadol o brif ardaloedd yn y dyfodol yn gadael yr unig ddewis ar gyfer yr ardal, sef creu adran etholiadol fawr, gydag aelodau lluosog, wedi'i llunio gan Gymuned gyfan Beaufort.

Er mwyn caniatáu cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd yn ystod yr arolwg nesaf o drefniadau etholiadol ar gyfer Blaenau Gwent cynigiwn fod Cymuned bresennol Beaufort yn cael ei rhannu'n dair cymuned newydd, sef Cymunedau Badminton, Beaufort a Rassau (map yn Atodiad 5). Ystyriwn, yn bennaf, y byddai ffiniau presennol yr adran etholiadol yn briodol fel ffiniau cymunedol. Serch hynny, cynigiwn rai newidiadau fel y'u dangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 5 er mwyn sicrhau bod y ffiniau'n dilyn nodweddion topograffig adnabyddadwy.

Bryn-mawr, a Nant-y-glo a'r Blaenau

4.5 Rydym wedi nodi'r awgrymiadau gan Gyngor Tref Bryn-mawr a Chyngor Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau ynghylch newid i'r ffin yn Ward De Bryn-mawr o Gymuned Bryn-mawr ac yn Ward Nant-y-glo o ardaloedd Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau.

4.6 Awgrymodd Cyngor Tref Bryn-mawr newid i'r ffin i ymgorffori nifer mawr o eiddo preswyl yn ei gymuned fel y dangosir ar y map yn Atodiad 6. Roeddem wedi nodi, fodd bynnag, mai'r unig fynediad i'r eiddo hyn oedd drwy Nant-y-glo a'r Blaenau ac ymddangosai hyn yn awgrym i ni fod yr eiddo wedi'u cynnwys yn briodol yng Nghymuned Nant-y-glo a'r Blaenau.

4.7 Cafwyd awgrym gan Gyngor Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau a fyddai'n symud ardal lai o Nant-y-glo a'r Blaenau i Fryn-mawr ac a fyddai'n ymgorffori Ystâd Ddiwydiannol Blaenant, ac Ysgol Gynradd a Chanolfan Iechyd Bryn-mawr yng Nghymuned Nant-y-glo a'r Blaenau fel y dangosir ar y map yn Atodiad 7. Roeddem wedi nodi y byddai'r adlinio awgrymedig hwn yn tynnu Ysgol Gynradd a Chanolfan Iechyd Bryn-mawr o ardal Bryn-mawr.

4.8 Rydym wedi nodi, yn sgil datblygiadau sydd wedi digwydd yn yr ardal hon ers diffinio ffin bresennol y gymuned, nad yw'r ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau, mewn rhannau, wedi cael ei diffinio'n glir bellach. Rydym o'r farn ei bod yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus wneud newidiadau i'r ffin gymunedol er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn nodweddion topograffig adnabyddadwy. Ystyriom y ddau awgrym a chynigiwn y byddai'n fwy priodol adlinio'r ffin gan ddefnyddio fersiwn diwygiedig o'r awgrym a wnaed gan Nant-y-glo a'r Blaenau i adlinio'r ffin gymunedol i'r de o Ysgol Gynradd Bryn-mawr, felly'n cadw Ysgol Gynradd a Chanolfan Iechyd Bryn-mawr yn ardal Bryn-mawr (map yn Atodiad 7). Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys trosglwyddo unrhyw etholwyr.

Cwm a Glynebwy

4.9 Rydym wedi nodi'r awgrym gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cwm a Glynebwy gan fod y ffin bresennol yn amlwg yn rhannu nifer o eiddo mewn ystâd sefydledig. Ar ôl cynnal ymweliad safle i gadarnhau hyfywedd newid awgrymedig y Cyngor i'r ffin, cynigiwn y byddai'n briodol adlinio'r ffin i ddilyn y ffordd gyfagos o gwmpas Cymuned Cwm i gynnwys yr eiddo hynny sydd yng Nglynebwy ar hyn o bryd o fewn ffin Cymuned Cwm (map yn Atodiad 8). Roeddem wedi nodi, fodd bynnag, y byddai hyn yn gadael rhai eiddo ar Stryd Hall, yr ymddengys mai o ardal cymuned Cwm y mae'r unig fynediad iddynt, yng Nglynebwy. Byddem yn croesawu sylwadau pellach mewn perthynas â'r ardal hon cyn ein bod yn ystyried ein Cynigion Terfynol.

Glynebwy

4.10 Rydym wedi nodi bod gan Gymuned Glynebwy, nad oes ward iddi, hanes hir o gael ei rhannu'n ddwy adran etholiadol llywodraeth leol, sef Gogledd Glynebwy a De Glynebwy. Oherwydd nad oes gan Gymuned Glynebwy gyngor cymuned ni fyddai modd creu wardiau cymuned newydd i gyd-fynd â'r adrannau etholiadol llywodraeth leol. Yn yr un modd â Beaufort (4.4), er mwyn caniatáu cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd yn ystod yr arolwg nesaf o drefniadau etholiadol ar gyfer Blaenau Gwent, cynigiwn fod Cymuned bresennol Glynebwy'n cael ei therfynu a bod dwy gymuned newydd yn cael eu creu o Gymuned bresennol Glynebwy, sef cymunedau Gogledd Glynebwy a De Glynebwy (gweler y map yn Atodiad 9).

Tredegar

4.11 Rydym wedi nodi'r newidiadau awgrymedig i ffiniau'r ward a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yng Nghymuned Tredegar (mapiau yn Atodiadau 10 ac 11). Mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal o dan Adran 55 y Ddeddf sy'n caniatáu i ni wneud cynigion ynghylch trefniadau etholiadol cymuned sy'n digwydd o ganlyniad i newid i ffin y gymuned. Nid ydym wedi cael unrhyw awgrymiadau am newid i ffin Cymuned Tredegar. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion am newidiadau i ffiniau'r ward ar gyfer Cymuned Tredegar y pryd hwn. Serch hynny, awgrymwn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystyried arolwg o'r wardiau cymunedol ar gyfer Cyngor Cymuned Tredegar.

5. CYNIGION

5.1 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni ar yr adeg hon o'n harolwg, yr ydym yn cynnig y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Abertyleri a Llanhiledd, Beaufort, Bryn-mawr, Cwm, Glynebwy, a Nant-y-glo a'r Blaenau yn yr ardal dan sylw gan ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y mapiau yn Atodiadau 3, 4, 5, 7, 8 a 9.

5.2 Gellir archwilio mapiau manwl ar raddfa fwy sy'n dangos y ffiniau newydd arfaethedig yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

5.3 Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein cynigion drafft i newid y ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a byddem yn croesawu sylwadau ar y cynigion.

6. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

6.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd hefyd yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau ar y trefniadau etholiadol i gynghorau cymuned a'r prif awdurdod, a fyddai'n deillio o'r newidiadau hyn. Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn manylu ar ein cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol. Byddem yn croesawu sylwadau ar yr agwedd hon ar ein hadroddiad hefyd.

Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

6.2 Mae Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd yn cael ei lunio trwy grwpio Cymunedau Abertyleri a Llanhiledd ac ar hyn o bryd, mae wedi'i rannu, at ddibenion etholiadol Cymunedol, yn wardiau cymuned Abertyleri, Cwmtyleri, Six Bells, Aber-big a Llanhiledd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Abertyleri	Abertyleri	3,381	5	676
	Cwmtyleri	3,637	5	727
	Six Bells	1,899	3	633
Llanhiledd	Aber-big	1,891	3	630
	Llanhiledd	1,779	3	593
		12,587	**19**	**662**

* Etholwyr i bob Cynghorydd

6.3 Yn ôl ein cynigion ar gyfer y ffin rhwng Cymuned Abertyleri a Llanhiledd a Chymuned Nant-y-glo a'r Blaenau, bydd cynnydd o 59 yn nifer yr etholwyr yn ward Cwmtyleri i 3,696. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward o ganlyniad i hynny.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Abertyleri	Abertyleri	3,381	5	676
	Cwmtyleri	3,696	5	739
	Six Bells	1,899	3	633
Llanhiledd	Aber-big	1,891	3	630
	Llanhiledd	1,779	3	593
		12,646	**19**	**666**

6.4 Mae Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau wedi'i rhannu ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, yn wardiau cymuned y Blaenau a Nant-y-glo. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Nant-y-glo a'r Blaenau	Blaenau	3,595	8	449
	Nant-y-glo	3,478	8	435
		7,073	**16**	**442**

6.5 Yn ôl ein cynigion ar gyfer y ffin rhwng Cymuned Abertyleri a Llanhiledd a Chymuned Nant-y-glo a'r Blaenau, bydd gostyngiad o 59 yn nifer yr etholwyr yn ward y Blaenau i 7,014. Ni fydd y cynnig ar gyfer y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau yn cael unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward o ganlyniad i hynny.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Nant-y-glo a'r Blaenau	Y Blaenau	3,536	8	442
	Nant-y-glo	3,478	8	435
		7,014	**16**	**438**

6.6 Mae gan Gymuned Beaufort, nad oes ganddi Gyngor Cymuned ar hyn o bryd, 8,059 o etholwyr. Yn ôl ein cynigion am newid i'r ffin rhwng Beaufort a Bryn-mawr bydd cynnydd o 2 yn nifer yr etholwyr yn Beaufort. Yn ôl ein cynigion ar gyfer Cymuned bresennol Beaufort, bydd tair Cymuned newydd yn cael eu creu: Badminton, gyda 2,566 o etholwyr, Beaufort, gyda 3,007 o etholwyr a Rassau, gyda 2,488 o etholwyr.

6.7 Ar hyn o bryd, mae Cymuned Bryn-mawr wedi'i rhannu at ddibenion etholiadau Cymunedol, yn wardiau cymuned Gogledd Bryn-mawr a De Bryn-mawr. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Bryn-mawr	Gogledd Bryn-mawr	2,066	8	258
	De Bryn-mawr	2,169	8	271
		4,235	**16**	**265**

6.8 Yn ôl ein cynigion ar gyfer y ffin rhwng Cymuned Bryn-mawr a Beaufort bydd gostyngiad o 2 yn nifer yr etholwyr yn ward gogledd Bryn-mawr, i 2,064. Ni fydd y cynnig ar gyfer y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau yn cael unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward o ganlyniad i hynny.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Bryn-mawr	Gogledd Bryn-mawr	2,064	8	258
	De Bryn-mawr	2,169	8	271
		4,233	**16**	**265**

6.9 Ar hyn o bryd, nid oes gan Gymuned Cwm Gyngor Cymuned ond ar hyn o bryd mae ganddi 3,343 o etholwyr. Yn ôl ein cynigion bydd cynnydd o 88 yn nifer yr etholwyr yng Nghwm, i 3,431.

6.10 Mae gan Gymuned Glynebwy, nad oes ganddi Gyngor Cymuned ar hyn o bryd, 6,486 o etholwyr. Yn ôl ein cynigion, bydd dwy gymuned newydd yn cael eu creu: Gogledd Glynebwy gyda 3,464 o etholwyr a De Glynebwy, gyda 3,022 o etholwyr.

6.11 Ar gyfer yr holl Gynghorau Cymuned uchod, rydym o'r farn nad yw'r newidiadau i nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob Cyngor Cymuned, ar hyn o bryd.

Trefniadau Etholiadol y Cyngor Bwrdeistref Sirol

6.12 Mae gan adran etholiadol Cwmtyleri sy'n cynnwys Cymuned Abertyleri 3,637 o etholwyr ar hyn o bryd a gynrychiolir gan 3 Chynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Nant-y-glo a'r Blaenau, ac Abertyleri a Llanhiledd yn golygu y byddai cynnydd o 59 yn nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cwmtyleri, i 3,696.

6.13 Mae adran etholiadol Beaufort yn cynnwys Cymuned Beaufort ac mae ganddi 2,973 o etholwyr ar hyn o bryd, a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Beaufort yn golygu y byddai cynnydd o 2 yn nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Beaufort, i 2,975.

6.14 Mae adran etholiadol Nant-y-glo yn cynnwys Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau ac ar hyn o bryd mae ganddi 3,478 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 Chynghorydd. Ni fyddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr, a Nant-y-glo a'r Blaenau yn cael unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Nant-y-glo

6.15 Mae adran etholiadol Cwm yn cynnwys Cymuned Cwm ac ar hyn o bryd mae ganddi 3,343 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Glynebwy a Chwm yn golygu cynnydd o 88 yn nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cwm, i 3,431.

6.16 Ar gyfer yr holl adrannau etholiadol uchod, rydym o'r farn nad yw'r newidiadau i nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob adran etholiadol ar hyn o bryd. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, rydym i gynnal arolwg o drefniadau etholiadol yr holl brif gynghorau yng Nghymru, a rhagwelwn y byddwn yn cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i'n llywio ni wrth gynnal yr arolwg. Bryd hynny, byddwn yn edrych yn fanwl ar drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ac yn ystyried unrhyw newidiadau sy'n codi o'r newidiadau arfaethedig hyn i ffiniau cymunedol.

7. CYDNABYDDIAETHAU

7.1 Dymunwn ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac i'r Cynghorau Cymuned am eu cymorth ac i bob unigolyn a chorff a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

8. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

8.1 Dylid anfon yr holl arsylwadau ar yr adroddiad drafft hwn at:

Yr Ysgrifennydd
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

erbyn 8 Mai 2009 fan bellaf.

9. Y CAMAU NESAF

9.1 Byddwn yn cyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurf adroddiad a chynigion ar ôl i ni ystyried y sylwadau a gawn mewn ymateb i'r adroddiad drafft hwn. Yna, os gwêl yn dda, cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd rhoi ein hargymhellion ar waith, naill ai gydag addasiadau neu hebddynt.

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Mawrth 2009

GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL)(BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT) 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru trwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[1] yr arferir y pwerau hynny bellach gan Weinidogion Cymru[2]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

Ystyr "y Ddeddf " ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

Ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent er mwyn ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion mewn perthynas â'r ardal a adolygir ag yr awdurdodir gan adran 54 o'r Ddeddf a pha gynigion, os oes rhai, i'w gwneud; a rhaid i'r Comisiwn, os gwêl yn dda, lunio'r cynigion hynny yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 31/3/2008

---

(1) 1972 c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol(Cymru) 1994.

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad wedyn i Weinidogion Cymru gan Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c.38).

Atodiad 2

Crynodeb o Gynrychiolaethau Cychwynnol – Arolwg Cymuned Blaenau Gwent

Cynigiodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** y canlynol:

Cymunedau Bryn-mawr/Nant-y-glo a'r Blaenau

- Gofynnodd Aelodau Bryn-mawr i'r Comisiwn ystyried adlinio'r ffin rhwng cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo. Mae Aelodau Nant-y-glo yn dymuno cadw'r sefyllfa fel y mae hi ar gyfer y ffiniau hyn. Yn ogystal, gofynnodd Aelodau Bryn-mawr i'r Comisiwn ystyried ffin fewnol y Ward.

- Dylid ystyried a ddylai ardal Bourneville barhau yng Nghymuned Cwmtyleri neu a ddylai gael ei throsglwyddo i Gymuned y Blaenau. Cafwyd y farn, petai'r Comisiwn yn ystyried hyn, yna y dylid ceisio barn yr etholaeth, trwy gyfrwng refferendwm petai ei angen – byddai 53 eiddo a 100 o etholwyr yn gysylltiedig â hyn.

Cymunedau Abertyleri a Llanhiledd

- Cadarnhaodd yr Aelodau'r arsylwadau a wnaed ynghylch Bourneville, y dylai gael ei bennu gan farn yr etholaeth. Ni fynegwyd unrhyw farn arall.

Cymunedau Beaufort, Glynebwy a Chwm

- Byddai aliniad rhwng Cwm a De Glynebwy yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag anomaleddau yn y ffin a dylai ffordd yr A4046 lunio'r ffin. Nid oes etholaeth yn gysylltiedig â hyn.

- Dylid ystyried diwygio'r ffin rhwng Cymunedau Beaufort a Bryn-mawr i gynnwys eiddo penodol, sy'n ymddangos yn lle arunig. Mae 2 etholwr yn gysylltiedig â hyn.

Cymuned Tredegar

- Dylid ystyried anomaledd bychan yn y ffin sy'n gysylltiedig ag eiddo yn Brynmeadow Close a Lakeside Tredegar. Byddai'r rhain yn trosglwyddo o'r Ward Ganol a Gorllewin i Ward Sirhowy. Cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i'r argymhelliad. Mae 13 eiddo a 23 o etholwyr yn gysylltiedig â hyn.

- Dylai'r Comisiwn ystyried diwygio'r ffin rhwng Wardiau Georgetown a Chanol a Gorllewin Tredegar i gynnwys Vale Terrace a Pochin Crescent yn gyfan gwbl yn Ward Georgetown. Awgrymwyd y byddai Afon Sirhowy yn llunio ffin naturiol.

- Petai'r Comisiwn yn ystyried hyn, yna awgrymir y dylid ceisio barn yr etholaeth, trwy refferendwm os oes angen. Mae 207 eiddo a 360 o etholwyr yn gysylltiedig â hyn.

Cyflwynodd **Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd** yr arsylwadau canlynol i'w hystyried:

- Arolwg o ffin pentref Aber-big. Mae tua 75% o'r pentref ym Mlaenau Gwent; mae'r 25% sy'n weddill yng Nghaerffili. Mae Aber-big yn rhan o Gymuned Abertyleri a Llanhiledd, sydd ym Mlaenau Gwent. Mae Ysbyty Abertyleri a'r Cylch ac Eglwys y Plwyf ar gyfer Llanhiledd (Blaenau Gwent) – Eglwys Crist – ill dau yn y rhan o'r pentref sydd wedi'i dyrannu i Gaerffili.

- Mae gan y Cyngor farn gref y dylid unioni'r anomaledd hwn ac y dylai pentref Aber-big gael ei uno ar hyd llinellau daearyddol gyda'r 25% yn cael ei drosglwyddo i Flaenau Gwent.

- Yn yr un modd, mae 80% o gymuned Bourneville yng Nghymuned Abertyleri a Llanhiledd ac mae 20% ohoni yn y Blaenau. Mae gan y pentref god post Abertyleri a thrwy drosgwlyddo South Griffin Terrace, Glanyrafon Terrace a'r Tylers Public House, byddai 100% ohoni yn Abertyleri. Byddai ffin naturiol rhwng Abertyleri a'r Blaenau.

- Yn yr un modd, nid yw'r ffin rhwng Swffryd (Blaenau Gwent) a Hafodyrynys (Caerffili) yn ffin naturiol. Mae gan Hafodyrynys gyswllt naturiol â Blaenau Gwent, yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol.

- At hyn, mae'r Cyngor yn pryderu bod y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn argymell cynnal refferendwm yn adran Cwmtyleri o Bourneville i weld a ydynt yn dymuno aros yn Adran Etholiadol Cwmtyleri neu drosglwyddo i'r Blaenau. Mae'r Cyngor o'r farn y dylai Bourneville gael ei uno yn un o'r Wardiau Etholiadol eraill. Nid, fel y mae ar hyn o bryd, gyda thuag 80% yn Abertyleri ac 20% yn y Blaenau. Petai refferendwm yn cael ei gynnal, mae'n rhaid iddo gynnwys y pentref cyfan, nid dim ond y rhan yng Nghwmtyleri. Rhaid i ardaloedd Glanyrafon Terrace, South Griffin Terrace a'r Tylers gael eu cynnwys mewn unrhyw fath o ymgynghoriad.

Cynigiodd **Cyngor Tref Bryn-mawr** y newid canlynol i linell y ffin i'r de o Fryn-mawr rhwng cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo, fel yr amlinellir ar y cynllun atodedig.

- Datganodd y Cyngor fod y ffin, o Gylchfan Ffordd Osgoi Ffordd y Blaenau yr A467, ar hyn o bryd yn mynd i gyfeiriad y gogledd ar hyd canol Ffordd y Blaenau gan fynd heibio i siop Asda a'r cyn ffatri NMC a'i bod yn parhau i'r chwith, ar hyd canol y ffordd o hyd, i fynd heibio i Ganolfan Fysys Stagecoach ac yna mae'n troi i'r chwith i gyfeiriad gorllewinol i fynd ymlaen ar hyd canol Ffordd Warwick. O ganlyniad, ar ochr orllewinol y llinell, mae Siop Asda a'r Datblygiad Masnachol (sef safle ffatri Rhif 1 Semtex gynt), Datblygiad Tai Lakeside, cyn ffatri NMC, Canolfan Fysys Stagecoach ac ochr ddeheuol Ffordd Warwick yn Nant-y-glo, pan fo'r rhain yn amlwg, yn ddaearyddol, ym Mrynmawr. Ar ochr ddwyreiniol y llinell, mae Chapel Garage, safle ffatri Rhif 2 Semtex gynt a Boilerdy Semtex oll ym Mrynmawr.

- Dadl Cyngor Tref Bryn-mawr yw y byddai'n fwy synhwyrol i'r llinell ar gyfer llinell y ffin ymestyn o Gylchfan Ffordd Osgoi Ffordd y Blaenau yr A467 i gyfeiriad gorllewinol ar hyd Ffordd Waun Pond Embankment h.y. Ffordd Pond tuag at Winchestown. Wrth y gyffordd â Golf Road, dylai'r llinell fynd i'r dde (mewn cyfeiriad gogledd-orllewin yn fras) tan iddi gyrraedd y lôn heb ei mabwysiadu, sy'n ei chysylltu â'r llwybr ar yr ochr orllewinol sy'n dilyn y 'Machine Pond' sydd yn y pen draw'n cysylltu Ffin Cymuned Beaufort. Byddai'r ardaloedd i ogledd a dwyrain llwybr newydd arfaethedig y ffin yna'n llunio rhan o Gymuned Bryn-mawr.

- Mae gan y cynnig hwn unffurfedd daearyddol ynghyd â goblygiadau hanesyddol. Yr enw ar y 'llyn/pwll' yw Pwll y Waun. Mae hyn yn cysylltu â'r enw llawer mwy hanesyddol ar gyfer Bryn-mawr sef Waun Helygen, ac ymadrodd lleol pobl o Nant-

y-glo yn y gorffennol, sef eu bod yn ‘mynd fyny i’r Waun’ h.y. i Fryn-mawr. At hynny, mae’r rhai sy’n meddiannu Canolfan Fasnachol Lakeside oll yn mynnu bod eu busnesau ym Mrynmawr.

Cyhoeddodd **Cyngor Tref Nant-y-glo a’r Blaenau** fod arsylwadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cael eu hystyried a chydnabuwyd y gallai unrhyw adlinio’r ffin rhwng Bryn-mawr a Nant-y-glo effeithio ar barciau datblygu tai a manwerthu Lakeside ac felly y byddai’n peri tarfu ar 325 o etholwyr presennol ac o ganlyniad yn trosglwyddo treth gymunedol a delir ar hyn o bryd i Gyngor Tref Nant-y-glo a’r Blaenau i dref fwy ffyniannus Bryn-mawr. Mae Nant-y-glo a’r Blaenau wedi’u gosod ymysg y 100 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae Cyngor Tref Nant-y-glo a’r Blaenau yn cytuno â’r farn a fynegwyd gan Aelod o Fryn-mawr yn ystod cyfarfod mewnol o Gyngor Blaenau Gwent h.y. bod natur y ffin yn gymhleth ac mewn un man, mae’n rhedeg o fewn 50 metr i Gofeb Rhyfel Bryn-mawr, er bod Cyngor Tref Nant-y-glo a’r Blaenau yn synnu pam y codwyd hyn nawr fel problem yn dilyn sawl blwyddyn o fodolaeth heb broblem na chŵyn.

Mewn ymgais i lunio ffin, a fydd yn darparu ar gyfer unrhyw bryder ynghylch y Gofeb Ryfel, y bydd yn hawdd i’r cyhoedd ei hadnabod ac na fydd yn tarfu ar yr etholaeth, cynigiodd Cyngor Tref Nant-y-glo a’r Blaenau'r canlynol fel yr amlinellwyd yn y cynllun atodedig:

- Parhad y ffin gymunedol bresennol ar hyd y B4248, o’i chyffordd â llwybr troed Rhif 338/16 i gyfeiriad Bryn-mawr hyd ei chyffordd â Ffordd y Blaenau.
- Parhau i gyfeiriad y de ar hyd Ffordd y Blaenau i’w chyffordd â’r ffordd fynediad i Barc Manwerthu Lakeside.
- Parhau ar hyd y ffordd fynediad i’w chyffordd â’r llwybr troed arfaethedig newydd (Cais Cynllunio Rhif 2008/0291)
- Y llwybr troed newydd yn ailymuno â’r ffin bresennol wrth gyffordd llwybr cert / llwybr troed 338/11 a Ffordd Warwick.